Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol Cae
Cofnodion Drafft
Dydd Mercher 7 Mehefin 2017
10am – 12pm, Ystafell 131b, Neuadd y Ddinas

Presennol:

Aelodau Statudol:

Paul Orders **(Cadeirydd)**	Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd (CC)
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP Caerdydd a'r Fro)
Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Dros Dro (BIP Caerdydd a'r Fro)
Gareth O'Shea	Cyfarwyddwr Gweithgareddau Gweithredol De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru
David Bents	Rheolwr Gweithgareddau Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Cyfranogwyr Gwadd:

Sheila Hendrickson-Brown **(Is-Gadeirydd)**	Prif Swyddog Gweithredol, C3SC
Mark Brace	Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu
Belinda Davies	Prif Uwch Arolygydd, Heddlu De Cymru
Victoria Harris	Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol

Ymddiheuriadau:

Sarah McGill	Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid (CC)
Peter Greenhill	Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Eleanor Marks	Dirprwy Gyfarwyddwr Isadran Cymunedau, Llywodraeth Cymru
Tony Young	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (CC)
Anne Wei	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol (BIP Caerdydd a'r Fro)
Nathan Swain	Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC)

Presennol:

Joseph Reay	Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau (CC)
Gareth Newell	Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil (CC)
Clive Bailey	Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC)
Sereen Kutubi	Swyddog Polisi (CC)

Eitem 3

Louise Bassett	Arweinydd Tîm Cyflenwi Partneriaethau (CC)

Eitem 4

Jane Thomas	Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid (CC)

Eitem 7

Stephanie Kendrick-Doyle	Rheolwr Diogelwch Cymunedol (CC)

1.	**Croeso ac Ymddiheuriadau** Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.	
2.	**Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** <u>*Gweithrediaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*</u> Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2017. Rhoddwyd diweddariadau ar gamau gweithredu gyda'r canlynol yn parhau i gael eu datblygu: **Camau gweithredu yn cael eu datblygu:** - Cadeirydd/AH/SMG i drafod y berthynas rhwng Ardal Gwella Busnes Catapult ac Ardal Gwella Busnes Innovate DU - - Y Cadeirydd ac AH i drafod y berthynas rhwng blaenoriaethau HEART a'r Fargen Ddinesig. **CYTUNWYD:** - Y dylid paratoi papur dewisiadau gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen academi sgiliau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i ddod o hyd i gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus. Ystyried y papur yng nghyfarfod gweithredol nesaf y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Awst. <u>*BGC*</u> Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod llawn y BGC a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2017 yn ogystal â diweddariadau ar gamau gweithredu ar gyfer gwybodaeth. Ni chodwyd unrhyw gamau pellach.	**Cadeirydd/AH/ SMG** **Cadeirydd/AH/** **Ysgrifenyddiaeth**
3.	**Bras Gynllun Cymunedau yn Gyntaf** Cyflwynodd Louise Bassett (Arweinydd Tîm Cyflenwi Partneriaethau) o Gyngor Caerdydd y sefyllfa ddiweddaraf o ran y broses o gau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol a'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer rhaglenni eraill yn ei le. Cytunwyd bod angen i gyllid a gwasanaethau a gomisiynwyd fod wedi'u cysoni'n well ar y lefel gymunedol, ac y dylid mynd i'r afael â'r dyblygu/cam-aliniad fel rhan o'r gwaith hwn. Nodwyd bod y 'Bwrdd Trechu Tlodi', sy'n adrodd i'r BGC wrthi'n bwrw ymlaen â'r mater hwn. Cytunwyd bod llywodraethiant datblygu a chyflenwi'r rhaglenni newydd ill dau yn adrodd yn glir i'r BGC, ac y dylid ystyried hyn yn yr adolygiad sydd i ddod ar lywodraethiant partneriaethau.	

	Gwahoddir partneriaid i weithdai ym mis Gorffennaf lle y gellir siapio'r cynigion newydd. **CYTUNWYD:** - Dilyn amserlen y gweithgareddau ymgynghori fel y nodir yn y cyflwyniad. - Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol i ystyried papur dewisiadau ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad, gyda'r bwriad o'i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC Gweithredol ym mis Awst.	**Ysgrifenyddiaeth** **Louise Bassett**
4.	**Strategaeth Cysgu ar y Stryd 2017-2020** Rhoddodd Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyngor Caerdydd) gyflwyniad yn amlinellu'r weledigaeth a'r materion allweddol a nodir yn y strategaeth. *Camau gweithredu hyd yn hyn:* - Cafwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Mawrth 2017 - Drafftiwyd cynllun gweithredu - prosiectau i'w datblygu gyda phartneriaid. - Mae gweithgor partneriaeth wedi'i sefydlu yn cynnwys tai a'r heddlu – aelodaeth i gael ei hehangu i gynnwys partneriaid allweddol eraill.	
5.	**Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd** Cynhaliwyd trafodaeth ar yr amcanion llesiant drafft a gynigiwyd gan Grŵp Cynghori ar Bolisi'r BGC. Nodwyd diwygiadau. Cytunwyd bod angen nodi dangosyddion canlyniadau a phennu targedau hirdymor ar gyfer y ddinas i anelu atynt / mesur cynnydd yn eu herbyn. **CYTUNWYD:** - Ar y fframwaith a'r fformat ar gyfer cyflwyno amcanion llesiant drafft i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am gyngor. - Caiff yr amcanion llesiant drafft eu mireinio ymhellach gan y Grŵp Cynghori ar Bolisi a'u cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w trafod ac i gytuno arnynt yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2017.	**Ysgrifenyddiaeth**
6.	**Cynigion Hyb Arloesedd** Yng nghyfarfod llawn diwethaf y BGC, cytunwyd y byddai prosiect peilot yn cael ei gynnal ar un maes her. Bydd y peilot yn cael ei ariannu gan y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd NESTA yn datblygu meini prawf ar gyfer y prosiect cyn y gwahoddir syniadau ar gyfer y maes her gan bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus. **PENDERFYNWYD:** - Ceisio awgrymiadau ar gyfer meysydd her yn seiliedig ar yr amcanion lles dros dro, yn dilyn cyfarfod llawn nesaf y BGC ar 23	**Ysgrifenyddiaeth**

	Mehefin 2017; - Sefydlu is-grŵp Hyb Arloesedd y BGC i werthuso a beirniadu'r cynigion meysydd her sy'n dod i law; - Noder y bydd angen Noddwr Gweithredol dynodedig ar gyfer y maes her dewisedig; - Ymrwymo i roi amser ac adnoddau yn fewnol i gefnogi cyflawni yn erbyn y maes her dewisedig; - Derbyn diweddariadau ar gynnydd y tîm arloesedd yn dilyn cwblhau bob cam o'r gwaith; - Y maes her peilot a gyflwynir yng nghyfarfod mis Awst Gweithrediaeth y BGC i'w gymeradwyo; - Cynrychiolwyr o is-grŵp Hyb Arloesedd y BGC i gwrdd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am unrhyw fewnbwn.	**Ysgrifenyddiaeth** **Ysgrifenyddiaeth** **Ysgrifenyddiaeth** **Ysgrifenyddiaeth**
7.	**Project Dinasoedd Cynhwysol** Rhoddodd Stephanie Kendrick-Doyle (Rheolwr Diogelwch Cymunedol) drosolwg o'r prosiect (dosbarthwyd papur). Dewiswyd Caerdydd i gymryd rhan yn y prosiect hwn a fydd yn cefnogi pum dinas yn y DU a'u partneriaid lleol i gyflawni newid yn eu hymagwedd tuag at integreiddio newydd-ddyfodiad i'r ddinas. Bydd yn tynnu ar syniadau a phrofiad o fewn Ewrop a dulliau arloesol o ddinasoedd yn yr Unol Daleithiau. Enwebodd y Cadeirydd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyngor Caerdydd (ddim yn bresennol yn y cyfarfod) fel arweinydd strategol y prosiect ar ran y BGC.	**Ysgrifenyddiaeth**
8.	**Diogelwch Cymunedol** *Trefniadau Llywodraethiant* Dosbarthwyd papur yn cadarnhau mai gan Weithrediaeth y BGC y mae rôl Partneriaeth diogelwch cymunedol statudol y ddinas. *Adolygiad Dynladdiadau Domestig (ADD) - Proses a Chostau* Rhoddwyd trosolwg o'r broses ADD gan Stephanie Kendrick-Doyle, Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Cyngor Caerdydd. Cynhaliwyd trafodaeth ar gynaliadwyedd y drefniadaeth weinyddu a chyllido bresennol. **Cytunwyd:** - Adolygu'r papur sy'n nodi'r broses ADD i ymgorffori diwygiadau gan yr Adran Iechyd, Heddlu De Cymru a C3SC, a'i ddosbarthu i'r Bwrdd ar gyfer ei gymeradwyo. - Y Cadeirydd i ddosbarthu'r llythyr i'r Bwrdd yn nodi'r materion o ran adnoddau a'r ffordd arfaethedig ymlaen.	**S K-D/ Ysgrifenyddiaeth** **Cadeirydd/ Ysgrifenyddiaeth**

9.	**Adrodd ar Eithrio Chwarter 3 2016/17** **CADARNHAWYD** y bydd materion sydd angen eu hystyried ar lefel strategol yn cael eu codi yn y Bwrdd hwn. **CYTUNWYD:** - Y bydd gwasanaethau iechyd meddwl, emosiynol plant a phobl ifanc a mecanweithiau atgyfeirio yn cael eu hystyried gan Fwrdd Gwella Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd.	**Pawb** **Ysgrifenyddiaeth**
10.	**Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall** Mae gwahoddiad wedi'i ddosbarthu ar gyfer digwyddiad dathlu 20 mlynedd ers pennu Model Caerdydd yn rhan o'r cynllun Dinasoedd Mwy Smart a Diogel, a gynhelir rhwng 9 – 12pm, 21 Mehefin 2017 yn Neuadd y Ddinas. Digwyddiad dathlu 20 mlynedd ers pennu Model Caerdydd yn cael ei gynnal rhwng 9-12pm, 21 Mehefin 2017 yn Neuadd y Ddinas. **CYTUNWYD:** - Ar amserlen cyfarfodydd Gweithrediaeth BGC a BGC 2017/18 - CNC i gynnal sesiwn y BGC yn y dyfodol yn canolbwyntio ar 'Dwf Gwydn' - Diwygio Mechnïaeth (Deddf yr Heddlu a Throseddu 2017) i beidio â bod yn eitem agenda yn y dyfodol - Gohirio diweddariad yr AGB nes cyfarfod Gweithrediaeth y BGC ym mis Awst.	**G O'Shea/ Ysgrifenyddiaeth**
	Cloi **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Dydd Iau 17 Awst 2017: 2pm tan 5pm, lleoliad i'w gadarnhau	

	Camau Gweithredu	
	Cofnodion a Chamau Gweithredu • Cadeirydd/AH/SMG i drafod y berthynas rhwng Ardal Gwella Busnes Catapult ac Ardal Gwella Busnes Innovate DU • • Y Cadeirydd ac AH i drafod y berthynas rhwng blaenoriaethau HEART a'r Fargen Ddinesig. • Grŵp Gorchwyl a Gorffen academi sgiliau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i baratoi papur dewisiadau er mwyn dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus. • Ystyried y papur yng nghyfarfod gweithredol nesaf y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Awst. **Eitem 3 Cynllun Braslun Cymunedau yn Gyntaf**	**Cadeirydd/ AH/SMG** **Cadeirydd/AH/** **Ysgrifenyddiaeth**

	• Dilyn amserlen y gweithgareddau ymgynghori fel y nodir yn y cyflwyniad.	**Ysgrifenyddiaeth**
	• Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol i ystyried papur dewisiadau ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad, gyda'r bwriad o'i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC Gweithredol ym mis Awst.	**Louise Bassett**
	Eitem 5 Cynllun Llesiant Lleol	
	• Caiff yr amcanion llesiant drafft eu mireinio ymhellach gan y Grŵp Cynghori ar Bolisi a'u cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w trafod ac i gytuno arnynt yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2017.	**Ysgrifenyddiaeth**
	Eitem 6 Cynigion Hyb Arloesedd	
	- Ceisio awgrymiadau ar gyfer meysydd her yn seiliedig ar yr amcanion llesiant dros dro, yn dilyn cyfarfod llawn nesaf y BGC ar 23 Mehefin 2017;	**Ysgrifenyddiaeth**
	- Sefydlu is-grŵp Hyb Arloesedd y BGC i werthuso a beirniadu'r cynigion meysydd her sy'n dod i law;	**Ysgrifenyddiaeth**
	- Rhoi diweddariadau ar gynnydd y tîm arloesedd yn dilyn cwblhau bob cam o'r gwaith;	**Ysgrifenyddiaeth**
	- Cyflwyno'r maes her peilot yng nghyfarfod mis Awst Gweithrediaeth y BGC ar gyfer eu cymeradwyo;	**Ysgrifenyddiaeth**
	- Cynrychiolwyr o is-grŵp Hyb Arloesedd y BGC i gwrdd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am unrhyw fewnbwn.	**Ysgrifenyddiaeth**
	Eitem 8 Diogelwch Cymunedol	
	• Adolygu'r papur sy'n nodi'r broses ADD i ymgorffori diwygiadau gan yr Adran Iechyd, Heddlu De Cymru a C3SC, a'i ddosbarthu i'r Bwrdd ar gyfer eu cymeradwyo.	**S K-D/ Ysgrifenyddiaeth**
	• Y Cadeirydd i ddosbarthu'r llythyr i'r Bwrdd yn nodi'r materion o ran adnoddau a'r ffordd arfaethedig ymlaen.	**Cadeirydd/ Ysgrifenyddiaeth**
	Eitem 9 Adrodd am Eithriadau yn Chwarter 3 2016/17	
	• Ystyried gwasanaethau iechyd meddwl, emosiynol plant a phobl ifanc a mecanweithiau atgyfeirio gan Fwrdd Gwella Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd.	**Ysgrifenyddiaeth**
	Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall	
	• CNC i gynnal sesiwn y BGC yn y dyfodol yn canolbwyntio ar 'Dwf Gwydn'.	**G O'Shea/ Ysgrifenyddiaeth**
	• Diweddariad ar yr Ardal Gwella Busnes i fod yn eitem agenda yng nghyfarfod nesaf Gweithrediaeth y BGC ym mis Awst.	**Ysgrifenyddiaeth**